Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Adroddiad Cryno ar yr Arolygiad

## Ward Bryngofal, Ysbyty'r Tywysog Philip, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

## Dyddiad yr arolygiad: 11, 12, a 13 Gorffennaf 2022

## Dyddiad cyhoeddi: 12 Hydref 2022



Mae'r ddogfen gryno hon yn rhoi trosolwg o ganlyniad yr arolygiad



ISBN digidol [redacted]
© Hawlfraint [redacted]



# Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn ar sut rydym yn arolygu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd yn Ysbyty'r Tywysog Philip, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar 11, 12 a 13 Gorffennaf 2022. Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys tri adolygydd AGIC a thri adolygydd cymheiriaid clinigol. Arweiniwyd yr arolygiad gan Uwch-arolygydd Gofal Iechyd AGIC.

Mae'r fersiwn gryno hon o'r adroddiad wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd.

Mae adroddiad llawn, sydd wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac sy'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol, ar gael ar ein gwefan.

# Ansawdd profiad y claf

## Crynodeb cyffredinol

- Gwelsom dîm o staff ymroddedig a oedd yn ymrwymedig i ddarparu safon uchel o ofal i gleifion.
- Gwelsom staff yn rhyngweithio â chleifion yn barchus drwy gydol yr arolygiad.
- Gwnaeth y cleifion y gwnaethom siarad â nhw ddweud wrthym eu bod yn hapus, gan nodi eu bod yn cael gofal da yn yr ysbyty.
- Roedd eiriolwr iechyd meddwl ar gael i'r cleifion a oedd yn darparu gwybodaeth a chymorth ar unrhyw faterion a allai fod ganddynt ynghylch eu gofal.

## Yr hyn a ganfuom a wnaeth y gwasanaeth hwn yn dda

- Roedd staff yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu yn barchus â chleifion
- Roedd gwaith tîm da a staff llawn cymhelliant
- Gwnaeth y cleifion y gwnaethom siarad â nhw ddweud wrthym eu bod yn hapus ac yn cael gofal da .

## Lle gallai'r gwasanaeth wella

- Rhaid gwneud gwaith i wella gwedd yr ardd i’r cleifion a rhoi mainc newydd yn lle’r un sydd wedi torri.
- Mae angen ailaddurno a rhoi lloriau newydd yn ardaloedd y cleifion.
- Gallai’r ward fod yn fwy cartrefol a chroesawgar, gan ei bod yn ymddangos yn llwm a chlinigol mewn mannau.

**Yng ngeiriau'r cleifion:**

Darparodd y cleifion y sylwadau canlynol i ni:

"Dylai'r staff wisgo tagiau enwau gan fod gymaint ohonyn nhw"

# Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

## Crynodeb cyffredinol

- Roedd yn ymddangos bod y staff yn ymroddedig i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.
- Roedd cynlluniau gofal a thriniaeth y cleifion yn cael eu cadw i safon dda.
- Roedd ymatebion diogel a therapiwtig ar waith i reoli ymddygiad heriol ac i hyrwyddo diogelwch a llesiant y cleifion.
- Roedd dogfennau cyfreithiol i gadw cleifion dan y Ddeddf Iechyd Meddwl yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth.
- Fodd bynnag, mae angen gwelliannau pellach ynghylch gweinyddiaeth y Ddeddf.

## Yr hyn a ganfuom a wnaeth y gwasanaeth hwn yn dda

- Roedd cynlluniau gofal yn fanwl ac roedd tystiolaeth glir bod y cleifion yn cael eu cynnwys
- Roedd cofnodion meddyginiaeth yn gynhwysfawr ac yn gyflawn, a gwelsom dystiolaeth o archwiliadau'n cael eu cynnal.

## Lle gallai'r gwasanaeth wella

- Gweithredu'r Ddeddf Iechyd Meddwl
- Llunio polisi ynglŷn â hyfforddi staff banc mewn ymyriad corfforol cyfyngol gan fod yr uned yn ward ar ei phen ei hun heb fantais mynediad at staff o wardiau eraill i ddarparu cymorth.

**Yng ngeiriau'r cleifion:**

Darparodd y cleifion y sylwadau canlynol i ni:

Dywedodd y cleifion wrthym fod y staff yn treulio amser gyda nhw.

# Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

## Crynodeb cyffredinol

- Gwelsom dîm o staff ymroddedig a oedd â dealltwriaeth dda o anghenion y cleifion yn yr ysbyty.
- Roedd arweinyddiaeth ymroddedig ac angerddol yn cael ei harddangos gan reolwr y ward.

## Yr hyn a ganfuom a wnaeth y gwasanaeth hwn yn dda

- Roedd y staff yn gadarnhaol am y cymorth a'r arweinyddiaeth roeddent yn eu cael
- Gwelsom fod strwythur llywodraethu effeithiol ar waith o ran gweithgareddau archwilio a chyfarfodydd rheolaidd i drafod digwyddiadau, canfyddiadau a materion yn ymwneud â gofal cleifion.

## Lle gallai'r gwasanaeth wella

- Cydymffurfedd â hyfforddiant gorfodol.

**Dywedodd y staff wrthym:**

Darparodd y staff y sylwadau canlynol i ni:

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan reolwr y ward a'r tîm arwain

# Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain yn cael eu manylu o fewn atodiadau'r adroddiad arolygu llawn.

Gofynnwn i'r bwrdd iechyd gymryd camau brys pan fyddwn yn nodi pryderon sy'n peri risg uniongyrchol i ddiogelwch cleifion. Mae'r pryderon hyn wedi'u hamlinellu yn yr atodiadau ac yn amlinellu'r camau a gymerwyd gan y bwrdd iechyd i amddiffyn diogelwch cleifion ac sydd wedi'u cymeradwyo gennym ni. Rydym hefyd yn darparu tabl manwl o welliannau a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn a gwella ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal iechyd. Yn ogystal, rydym yn amlinellu pryderon a godwyd ac yn cydnabod y rhai a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad.

Ar yr adeg briodol, mae AGIC yn gofyn i'r bwrdd iechyd gadarnhau bod camau wedi'u cymryd yn unol ag ymatebion rheolwyr a ddogfennwyd yn y cynllun gwella. Rydym hefyd yn gofyn i fyrddau iechyd ddarparu tystiolaeth ddogfennol o'r camau a gymerwyd a/neu'r cynnydd a wnaed.

